**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol**

**Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2025**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan - 4pm**

**Yn Bresennol:** **Aelodau**:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL) - Dirprwy Gadeirydd
Karen Burch (KB)
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Peter Griffiths (PG)
David Gravelle (DG)
Julie James (JJ)
Julie Sweet (JS)
Laura Grant (LG)
Sandra Downey (SD)
Phil Snaith (PS)

**Ysgrifennydd** - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**

Alex Morgan (AM) – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Thomas (NT) - Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Andrew Paterson (AP) - Swyddog Tir Comin CSC

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:

Wyn Owen
Tara-Jane Sutcliffe

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion;**

Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen (AVO) - Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd
Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Christopher Nelson - Rheolwr Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin
Phillip Morgan - Arweinydd Tîm CNC - Rheoli Tir y De-orllewin

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir
Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at
Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae CAMS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (meddalwedd mapio GIS)
Mae BHS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gymdeithas Geffylau Prydain

| **EITEM** | **CAMAU GWEITH REDU** |
|---|---|
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd CF y fforwm a darllenodd yr ymddiheuriadau.<br><br>Cyflwynodd yr holl aelodau, sylwedyddion ac ymgynghorwyr eu hunain a'u buddiannau mynediad/rôl. | |
| **Eitemau 2 a 3 – CYFLWYNIADAU RHEOLI MYNEDIAD**<br><br>HAMDDEN AWYR AGORED<br><br>Soniodd NT am y modd yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli Hamdden Awyr Agored. Trosolwg o bortffolio Hamdden Awyr Agored, sut mae'n cael ei reoli a'i gynnal a'r heriau.<br>Cafwyd Sesiwn Holi ac Ateb wedi hynny.<br><br>TIR COMIN<br><br>Cyflwynodd AP grynodeb o reoli Tir Comin CSC a'i heriau. Rhoddwyd manylion hefyd am y broses o ddigido'r gofrestr Tir Comin gan gynnwys ymgynghoriad yn y dyfodol y gellir cynnwys y Fforwm Mynediad Lleol ynddo.<br>Cafwyd Sesiwn Holi ac Ateb wedi hynny.<br><br>Diolchodd MH i'r ddau gyflwynydd, gan annog ymgysylltu parhaus â'r ddau wasanaeth yn y dyfodol.<br><br>Esboniodd CF fod un sesiwn arall o gyflwyniadau Mynediad wedi'i threfnu ar gyfer trydydd cyfarfod tymor newydd y Fforwm. Bydd CNC, Sustrans a Chynnal a Chadw Tiroedd CSC yn cyflwyno crynodeb o reoli mynediad o fewn eu cylch gwaith.<br><br>Gofynnwyd i sleidiau'r ddau gyflwyniad gael eu dosbarthu. | **CF** |

| | |
|---|---|
| **Eitem 4 – ETHOL CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL**<br><br>MH oedd yr unig aelod i gyflwyno'i enw ar gyfer Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol – pleidleisiwyd yn unfrydol dros ei ethol<br><br>Ni chyflwynwyd enwau ar gyfer rôl y dirprwy cyn y cyfarfod.<br><br>Enwebodd PS RL.<br><br>Derbyniodd RL yr enwebiad – pleidleisiwyd yn unfrydol dros ei ethol | |
| Derbyniodd MH y rôl fel Cadeirydd ac arweiniodd weddill y cyfarfod. | |
| **Eitem 5 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU HTC**<br><br>Rhoddodd AC ddiweddariad am yr holl brosiectau cyfredol, gan amlinellu'r cynllunio a'r cynnydd ym mhob achos.<br><br>Rhoddwyd manylion hefyd am geisiadau llwyddiannus am gyllid, gan gynnwys lle y bydd cyllid yn cael ei wario.<br><br>Gofynnodd KB i fapiau o ardaloedd prosiectau gael eu darparu yn y cyfarfod nesaf i helpu i ddeall y darlun cyffredinol o'r gwaith o wella rhwydwaith HTC.<br><br>Cafwyd ymholiad ynghylch y prosiect Arolygu Gwirfoddol. A fydd yn parhau ar ôl 2 flynedd?<br><br>Dywedodd CF y gellid ceisio datrysiad masnachol i gwblhau'r arolygon o 1 Ebrill 2026 i gadw'r gwaith o gasglu data dros gyfnod o 3 blynedd neu lai, gan gadw dilysrwydd yr holl ddata a gesglir. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu symud i rolau newydd.<br><br>RL - mae'r prosiect gwirfoddoli yn fodel ar gyfer y dyfodol<br><br>AC - efallai y bydd rhai gwirfoddolwyr yn dymuno parhau i arolygu y tu hwnt i 31 Mawrth 2026. Darperir ar eu cyfer ond mae llawer wedi mynegi mwy o ddiddordeb mewn gwneud gwaith mwy corfforol fel clirio llwybrau a/neu helpu i osod dodrefn | AM |
| **Eitem 6 – ADRODDIADAU PERFFORMIAD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS**<br><br>Adolygodd yr holl aelodau yr adroddiadau cyn y cyfarfod<br><br>Ymddiheuriad gan CF – Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a data ynghylch Chwiliadau a Chwynion wedi'u hepgor.<br><br>Awgrymodd RL fod yr adroddiadau'n cael eu creu bob chwarter yn ôl blwyddyn galendr waeth pryd mae cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol, er mwyn ei gwneud hi'n haws gwneud cymariaethau. | |

| | |
|---|---|
| Hefyd, mae angen sicrhau bod yr holl adroddiadau'n cael eu darllen i sicrhau bod nifer yr eitemau gweithredol ar ddiwedd un cyfnod yn cyfateb i'r ôl-groniad ar ddechrau'r un nesaf - mae anghysondebau wedi'u nodi.<br><br>Hefyd mynegodd farn y dylid cyflwyno data i wella dealltwriaeth o faterion cyfreithiol a achosir gan dirfeddianwyr rhwystrol.<br><br>Cytunodd yr aelodau.<br><br>Bydd CF yn ystyried yr awgrymiadau ac yn trafod newidiadau i adroddiadau gyda darparwr y feddalwedd.<br><br>Bydd dadansoddiad priodol o'r data yn dechrau unwaith y bydd blwyddyn lawn o adroddiadau newydd wedi'u cynhyrchu. | CF |
| **Eitem 7 – YMGYNGHORI Â RHANDDEILIAID YNGHYLCH CYNLLUN ADNODDAU COEDWIG CAIO**<br><br>Ymgynghoriad ynghylch Cynlluniau Adnoddau Coedwig Caio a Llanymddyfri.<br><br>Sylwodd MH fod y cynlluniau'n wahanol o ran eu dyheadau ac nad oeddent yn cynnwys yr un penawdau allweddol. Byddai wedi disgwyl iddynt gael eu cynhyrchu gan ddefnyddio'r un templed a'u bod yn cynnwys amcanion tebyg.<br><br>KB - dylai'r ddau gynllun anelu at wella cyfleoedd mynediad, nid eu cadw.<br><br>Cytunodd MH y dylai'r cynlluniau gynnwys nodau mwy cadarnhaol mewn perthynas â mynediad.<br><br>SB - nid oedd sôn am fynediad i ddefnyddwyr cerbydau modur/4x4.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ynghylch pwyntiau allweddol fel ymateb:<br><br>- Gwella cyfleoedd mynediad<br>- Sicrhau bod y mynediad presennol ar agor ac ar gael<br>- Cysondeb ar draws cynlluniau<br>- Cynnwys ystyriaethau mynediad i gerbydau hamdden<br><br>Bydd MH yn drafftio ac yn dosbarthu nodyn er mwyn i'r aelodau wneud sylwadau. | MH |
| **Eitem 8 – DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH/POLISI O RAN MYNEDIAD**<br><br>Dywedodd CF fod Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol 2023 ac Adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy bellach wedi'u cymeradwyo a'u bod gyda'r tîm Cyfieithu cyn cael eu cyhoeddi.  Mae Adroddiad Blynyddol 2024 Fforwm Mynediad Lleol ar y gweill.<br><br>Rhoddodd CF ddiweddariad i'r aelodau ar gynnydd y gwaith o fabwysiadu'r Strategaeth Farchogaeth.  Ymatebwyd yn dda iawn i hyn yn y Pwyllgor Craffu, a bu | |

| | |
|---|---|
| llawer o ymgysylltiad cadarnhaol ymhlith yr aelodau.<br><br>Bydd cam olaf y broses ystyried, cyn cael cymeradwyaeth, yn digwydd yn y Pwyllgor Cabinet ym mis Medi (2025).<br><br>Awgrymodd JG y gallai gweithredu mewn perthynas â'r Strategaeth Farchogaeth o ran ymchwilio i lwybrau nad ydynt yn cael eu cofnodi'n ddigonol fod yn sail i brosiect Ffyrdd Coll – mae BHS yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i gynorthwyo ymgeiswyr ac i wella ansawdd ceisiadau. | |
| **<u>Eitem 9 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</u>**<br><br><u>Manylion yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y Portffolio</u> - heb eu dosbarthu eto<br><br><u>Dosbarthu'r Strategaeth Farchogaeth</u> – nid oedd rhai o'r aelodau wedi cael y ddogfen, ailanfon y ddogfen<br><br><u>Nodyn Cyngor i CNC ynghylch adferiad yn dilyn storm Darragh</u> – wedi'i anfon, dim ymateb hyd yma. Neges e-bost yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan CNC ynghylch adfer yn dilyn y storm ac adfer mynediad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac mae'n nodi mai dyma fydd eu 'diweddariad terfynol'.<br><br><u>Cysylltu Fferm Wynt â'r Grid</u> – eitem agenda ar gyfer y dyfodol i drafod a galluogi aelodau i ffurfio barn ar y pwnc. Materion i'w cynnwys i'w trafod:<br><br>- Effaith ar fynediad i'r cyhoedd<br>- Effaith ar yr agenda werdd<br>- Budd posibl i'r gymuned<br><br><u>Diweddariad am Lwybr Dyffryn Tywi</u> – a allai rhywun gael ei wahodd i fod yn bresennol i gyflwyno cynnydd o ran y prosiect?<br><br><u>Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd</u> – cynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025, cyfarfod defnyddiol, llawer o drafodaeth ddefnyddiol. Dylid dosbarthu'r cofnodion i holl aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y pynciau trafod. | AVO/ET/<br><br>CF<br><br><br><br>CF<br><br><br><br>CF<br><br>CF |
| **<u>Eitem 10 - Y CYFARFODYDD NESAF</u>**<br><br>9 Hydref 2025 – 4pm (Llandeilo)<br><br>22 Ionawr 2026 - 4pm (Caerfyrddin)<br><br>Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd – 29 Hydref 2025 – 4pm (Y Mynydd Mawr neu Lyn Llech Owain) | |
| **<u>Eitem 10 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br><u>CF - Archif data materion CAMS</u> | |

| | |
|---|---|
| Beth yw eich barn am archifo data materion CAMS sydd dros 5 oed ac yn dymhorol neu'n 'newidiol' o ran ei natur.<br><br>Mae'r adroddiadau perfformiad yn cynnwys hen ddata sy'n debygol â diffyg perthnasedd heddiw.<br><br>Ymateb cymysg ymhlith yr aelodau.<br><br>Cyfarfod trafodaeth grŵp i'w drefnu ar TEAMS i ystyried hyn ymhellach. Yr aelodau sydd â diddordeb mewn cyfrannu:<br>RL, JS, SB, KB, JG<br><br>Roedd pawb yn cytuno y dylai data arolwg gwirfoddol ddod yn set ddata newydd unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau.<br><br><u>RL - Marchnata</u><br><br>Erthygl ddiweddar ar Sir Gaerfyrddin fel Gardd Cymru.<br><br>A ddylid gwahodd cynrychiolydd Marchnata CSC i ymuno â chyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol fel nad yw cyfleoedd i hyrwyddo mynediad yn y Sir yn cael eu colli?<br><br>Pawb yn cytuno<br><br><u>CF - Logo Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin</u><br><br>Nodwyd bod gan Fforymau Mynediad Lleol eraill logo. Gofynnwyd i aelodau ddylunio rhai syniadau ar gyfer logo.<br><br>Gellid rhoi'r ddelwedd ddewisedig ar y dudalen we a darparu pennawd i ddogfennau a gyhoeddir gan y Fforwm Mynediad Lleol.<br><br>Dylid cyflwyno syniadau i CF erbyn y cyfarfod nesaf. | CF<br><br>CF<br><br>POB UN |